ANWYL, Syr EDWARD (1866 - 1914), ysgolhaig Celtig

Enw: Edward Anwyl
Dyddiad geni: 1866
Dyddiad marw: 1914
Rhiant: Ellen Anwyl (née Williams)
Rhiant: John Anwyl
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig Celtig
Maes gweithgaredd: Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Herbert Parry-Williams

Ganwyd 5 Awst 1866 yng Nghaer, yn fab i John ac Ellen Anwyl; addysgwyd yn King's School, Caer, ac yng ngholegau Oriel a Mansfield, Rhydychen. Daeth yn athro Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn 1892, ac, yn ddiweddarach, yn athro ieitheg Gymharol hefyd. Fe'i hapwyntiwyd yn brifathro Coleg Hyfforddi Mynwy, Caerleon, ym mis Tachwedd 1913, ond bu farw 8 Awst 1914, cyn dechrau ar ei waith yno. Yr oedd yn aelod o amryw gyrff, megis Bwrdd Diwinyddol Prifysgol Cymru, y Bwrdd Canol Cymreig (ef yn gadeirydd), Comisiwn Brenhinol Cofadeiliau Hynafol (Cymru), a Chyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru; yr oedd hefyd yn bregethwr cynorthwyol gyda'r Annibynwyr.

Ymysg ei lu cyhoeddiadau fe geir *A Welsh Grammar for Schools*, Part I, *Welsh Accidence*, 1898, Part II, *Welsh Syntax*, 1899; *Celtic Religion in Pre-Christian Times*, 1906; rhagymadroddion a darlithiau, anerchiadau ac erthyglau mewn cyfnodolion a gwyddoniaduron, yn arbennig *Encyclopaedia of Religion and Ethics* (Hastings), ac esboniad, yn Gymraeg, ar *Hosea*.

Yr oedd Anwyl yn ysgolhaig gwych; yr oedd ei wybodaeth yn dra eang ac amryfal. Am flynyddoedd lawer bu'n un o w r amlycaf bywyd a gweithgareddau diwylliannol Cymru. Fe'i hurddwyd yn farchog yn 1911.

Awdur

Syr Thomas Herbert Parry-Williams, (1887)

Ffynonellau

Syr Thomas Hughes, *Great Welshmen of Modern Days* (1931)

Who's who?, 1914

gwybodaeth bersonol

Darllen Pellach

Enwogion Cymreig - XL: Yr Athro Edward Anwyl, M.A., *The London Welshman*, 3 Feb 1906, p.1, gyda llun

Erthygl Wicipedia: Edward Anwyl

Delweddau

James Russell & Sons, Sir Edward Anwyl

John Wickens, Sir Edward Anwyl

Frank Culliford, Sir Edward Anwyl

H. H. Davies, Edward Anwyl

H. H. Davies, Edward Anwyl

H. H. Davies, Edward Anwyl

LlGC: Edward Anwyl

LlGC: Y diweddar Syr Edward Anwyl

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74238717

Wikidata: Q5341587

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu